

Ymateb y Rheolwyr

Teitl yr Adroddiad: Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Sir Ddinbych

Dyddiad Cwblhau: Awst 2021

Cyfeirnod y Ddogfen: 2552A2021-22

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd arfaethedig	Blaenor iaeth uchel (ydi / nac ydi)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
A1	Rheoli gwariant Sicrhau bod cyllidebau a gweithgareddau gweithredol yn cael eu halinio'n well er mwyn cynnal cynaliadwyedd ariannol parhaus.	Sicrwydd bod cyllidebau yn ddigonol i gwrdd â gweithgareddau gweithredol arfaethedig ac i ddarparu mwy o atebolrwydd ar gyfer penderfyniadau gwario.	Ydi	Mae'r Strategaeth Gyllidebol Tymor Canolig yn nodi'n glir sut y bydd y Cyngor yn nodi, herio ac, os oes angen, yn cynnwys pwysau strategol a phwysau nad yw'n strategol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Yn amlwg mae hon yn broses barhaus yn hytrach na digwyddiad, ond mae'r Strategaeth Gyllidebol a gymeradwywyd yn darparu'r	Ebrill 2021 – cyflwynwyd y Strategaeth Gyllidebol i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – ond cydnabyddir	Steve Gadd, Swyddog Adran 151, gan weithio gyda'r Bwrdd Cyllideb (Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Arweinydd a'r Aelod Arweiniol Cyllid).

Cyf	Argymhelliad	Canlyniad / budd arfaethedig	Blaenor iaeth uchel (ydi / nac ydi)	Ymateb y rheolwyr	Dyddiad cwblhau	Swyddog cyfrifol
				<p>broses a'r dulliau i nodi a mynd i'r afael â'r holl bwysau (naill ai drwy eu lleihau, eu cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig neu drwy gwtogi gwasanaethau). Fodd bynnag, gyda phob ewyllys da yn y byd, bydd amrywiadau cyllidebol yn ystod y flwyddyn yn parhau i ddigwydd ac mae gan Gyngor Sir Ddinbych hanes blaenorol da o reoli'r amrywiadau hynny o fewn yr adnoddau ariannol cyffredinol a ddyrennir bob blwyddyn a drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn yn ofalus.</p>	<p>bod hwn yn gam gweithredu parhaus.</p>	